GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i Gefnogi a Hybu'r Gymraeg: Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i Gefnogi a Hybu'r Gymraeg: Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach.

Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd yng nghanol y broses ymgynghori ar rybudd cydymffurfio drafft Safonau'r Gymraeg a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg. O'r herwydd, mae sefydliadau eraill sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses o dderbyn o osod Safonau efallai mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â holl elfennau cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, rydym yn barod i gynnig sylwadau yn deillio o'n profiad ein hunain a'n sefyllfa o ran y ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud 'â'r Gymraeg.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac wedi bod yn gweithio tuag at gydymffurfiaeth gyda'r Safonau arfaethedig. Mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi gosod y sylfaen ar gyfer proses o gynllunio a pharatoi cadarn i ddiwallu gofynion cydymffurfiaeth newydd.

Fel rhan o'i ymrwymiad i ddarparu'r gofal gorau posibl â'r claf yn ganolog, mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau Cymraeg i fynd i'r afael â'r galw cynyddol ar y tîm yng ngoleuni'r Safonau sydd i ddod. Mae Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi'i phenodi i ganolbwyntio'n benodol ar weithredu a hwyluso Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd Tiwtor y Gymraeg ei phenodi hefyd i fynd i'r afael â'r galw am hyfforddiant i gynyddu gallu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog drwy ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu a datblygu staff. Oherwydd cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaeth cyfieithu, gwelwyd buddsoddiad ar ffurf Uwch Gyfieithydd a Chyfieithydd ychwanegol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Strategol y Gymraeg sy'n gosod ei nodau ac amcanion hir dymor ar gyfer 2016-2019. Mae'r cynllun strategol hwn yn rhoi gweledigaeth ar gyfer hyrwyddo a gwella darpariaeth Gymraeg ac yn amlinellu canolbwynt allweddol ar ddarparu agwedd "Cynnig Rhagweithiol" at gynllunio a darparu gwasanaethau.

Er mwyn cynorthwyo â chynllunio, ystyriwyd gofynion yn unol â thri dimensiwn fydd yn ffurfio sail i adeiladu arno.

- Mae **Ymyriad Strategol** yn nodi'r weledigaeth i'r Bwrdd Iechyd wrth symud ymlaen, gan sicrhau ein bod yn gweithio tuag at yr un nod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau eglurder o ran yr ymrwymiad a'r ymgysylltu angenrheidiol ar lefel uwch arweinyddion gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o gynllunio gweithredol a darpariaeth gwasanaeth.
- Mae **Newid Ymddygiad** yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn creu cyd-destun sy'n annog staff i ddefnyddio eu sgiliau iaith. Mae'n sicrhau newid diwylliannol ar bob lefel yn y sefydliad gan greu amgylchedd ble mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn hollbwysig.
- Mae **Perfformiad a Monitro** yn sicrhau bod y Cynllun Strategol yn parhau yn waith ar y gweill drwy gylch parhaus o fonitro.

Yn seiliedig ar y Cynllun Strategol, mae Rhaglen Waith Safonau'r Gymraeg wedi'i datblygu yn seiliedig ar Safonau'r Gymraeg ac yn cynnwys amcanion o 'Mwy na Geiriau', Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys camau penodol ar gyfer meysydd gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith, sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect i gefnogi'r Bwrdd i ddarparu ei gyfrifoldebau yn unol â Safonau'r Gymraeg i wella profiad defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu gofal dwyieithog. Bydd cyfrifoldebau'r Grŵp yn cynnwys cymryd perchnogaeth o ddarparu'r Safonau'n llwyddiannus ledled y Bwrdd Iechyd yn ogystal â gweithredu fel arweinwyr strategol a phwyntiau cyswllt yn y meysydd gwasanaeth.

Wrth baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cysylltu ac yn gweithio â chyrff eraill o'r sector cyhoeddus sydd wedi bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd diddordeb brwd yn y gweithgarwch yn ei Awdurdodau Lleol cyfagos ac wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd, cynadleddau a gweithdai a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Roedd gofyn am ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n ateb y diben i ymestyn a chryfhau'r goblygiadau o fewn Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nid oedd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn sicrhau cysondeb rhwng sectorau, nac ychwaith rhwng sefydliadau o fewn yr un sector a oedd yn ddiffyg sylfaenol ac yn rhywbeth a fuasai rhywun wedi ei obeithio a fyddai'n cael ei ddatrys o dan y gyfundrefn newydd.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi gosod seilwaith cadarnach a oedd ei angen ar sefydliadau i adeiladu arnynt gan fod hyn yn ddiffygiol o dan ofynion blaenorol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae hyn yn bwysicach fyth yn dilyn gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r Strategaeth Cymraeg 2050.

O ddwyn i ystyriaeth Strategaeth Cymraeg 2050, mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â rhagair y Gweinidog sy'n amlinellu gweledigaeth am "wlad lle mae'r Gymraeg yn gadarn ac yn gynaliadwy.....gyda dwyieithrwydd wedi ymblethu'n ddi-dor drwy gymuned a gwaith ym mhob cwr o'r wlad." Mae angen agwedd cenedlaethau a gwlad gyfan i gyflawni gweledigaeth a nodau'r Strategaeth.

Ymddengys nad oedd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn bodloni amcanion polisi. Mae'n angen ystyried y rheswm dros hyn o fewn rhai sefydliadau, ac i sicrhau nad yw'r un camgymeriadau yn digwydd eto.

Un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd darparu gwell eglurder a sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd o'u hawliau o gwmpas dewis iaith ar draws y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd bod yr hyn sy'n ofynnol gan un corff mewn un rhan o Gymru yn gallu bod yn wahanol i'r hyn sy'n ofynnol gan gorff arall mewn rhan arall o Gymru, nid yw Mesur 2011 wedi cyflawni'r lefel o gysondeb a ddisgwyliwyd ar draws bob sefydliad. Mewn geiriau eraill, nid yw ein haelodau yn teimlo bod y Mesur wedi goleuo'r mater. Dylai deddfwriaeth sicrhau bod unigolyn yn gallu derbyn gwasanaeth o'r un lefel a'r un ansawdd lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.

Mae gweithrediad y ddeddfwriaeth angen mynd cam ymhellach i sicrhau eglurder ac agwedd gyson – dylai unigolyn allu derbyn gwasanaeth o'r un lefel ac o'r un ansawdd yng Ngogledd ac yn Ne Cymru. Mae angen fframwaith i scirhau bod cynlluniau a gweithdrefnau yn cael eu rhoi mewn lle i ganiatau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn a ddylai, yn ei dro, roi sicrwydd i'r holl sefydliadau sy'n gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion ehangach o fewn Cymraeg 2050.

Ers diddymu Bwrdd yr Iaith, mae wedi dod yn amlwg bod bwlch yn nhermau hyrwyddo'r Gymraeg. Mae angen cydbwysedd rhwng cefnogaeth a gorfodaeth. Wrth gydnabod bod rheoleiddio yn allweddol i ddarpariaeth lwyddiannus y Safonau, mae angen ffocws ar gefnogi sefydliadau a hyrwyddo'r iaith. Dylai'r ddau gael eu cadw ar wahân, ond yr un mor gadarn.

Dylai bod mwy o ffocws ar weithgaredd hyrwyddo, gan fod sefydliadau sy'n brofiadol o ran gweithredu deddfwriaeth y Gymraeg, ac sydd yn y gorffennol wedi cofleidio'r cysyniad o hyrwyddo'r Gymraeg, wedi gweld bwlch yn y maes hwn. Mae ymgymryd â gweithgareddau hyrwyddol, perthnasol yn ddiffygiol yn y system gyfredol ac mae sefydliadau a'r cyhoedd angen cefnogaeth a chyfarwyddyd.

Elfen greiddiol arall sydd yn brin yn y system bresennol yw cydweithio gyda chyrff i'w cynorthwyo i gydymffurfio â Safonau, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant neu gynnal gweithdai. Mae angen dull gofalus ac amlinelliad clir o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig o bob gwasanaeth. Byddai'r Bwrdd iechyd yn croesawu hyn gan fod yna ddiffyg presennol hyd yn oed o fewn sectorau.

O edrych ar ddatblygiadau posibl ar gyfer y dyfodol wrth weithredu deddfwriaeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg, mae angen cydbwysedd er mwyn sicrhau bod yna fframweithiau llywodraethu a chefnogi addas ar waith os ydym am symud ymlaen ymhellach. Mae gofyn am:

- hybu'r iaith;
- cyngor ar gyfer sefydliadau sydd yn wynebu heriau;
- camau gorfodi i sicrhau bod sefydliadau yn gweithredu'r Safonau;
- rheoleiddio'r broses o fonitro cydymffurfiaeth;
- cefnogaeth i sefydliadau

Mater ar wahân sydd hefyd angen tynnu sylw ato yw'r heriau sylweddol sydd yn bodoli o fewn y broses ymchwiliadau sydd yn gallu bod yn rhwystr i ddatrysiadau rhesymol ar y cyd. Mae'r system bresennol yn broses hir a maith. Mae gan y Bwrdd Iechyd brofiad o'r dull presennol o ddelio â chwynion honedig, a welwyd cwyn yn cael ei uwchraddio i ymchwiliad pryder ehangach a allai fod wedi cael ei ddatrys yn lleol mewn dull rhesymegol. Gresyn fod y dull hwn yn cyfyngu ar allu sefydliadau i ddatrys problemau'n lleol, ac yn rhwystr i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cyffelyb.

Fel yr amlinellir yn yr ymateb hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu'r ffyniant yn y gydnabyddiaeth a roddir i angen iaith o fewn y GIG yng Nghymru a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ddarpariaeth gwasanaethau a phrofiad y claf ar lawr gwald. Pwysleisir hefyd y pwysigrwydd o symud y waelodlin gadarnhaol a sefydliad gan 'Mwy na geiriau' gan annog cynllunio ymlaen drwy osod amcanion hirdymor fel rhan o Fframwaith Strategol diwygiedig yn canolbwyntio ar symud egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" yn ei flaen fwyfwy.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn. Mae croeso i chi gysylltu os angen arnoch ragor o wybodaeth neu eglurhad.

Hyderwn y bydd y sylwadau o fudd i chi.